Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llangaffo
# Llangaffo
# Gaerwen
# Ynys Môn
# LL60 6LT

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Llangaffo sydd oddeutu chwe milltir o dref Llangefni yn Ynys Môn.

Mae 52 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 7 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu yn ddau ddosbarth, un ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae ychydig o dan hanner y disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un o'r disgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r ganran genedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Canran fechan iawn o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llangaffo yn 2013-2014 yw £4,699. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £9,156 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Llangaffo yn safle 17 o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2006.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Mai 2008.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion o bob oedran yn dda;
- disgyblion o'r holl ystod oedran a gallu yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- dealltwriaeth gadarn gan ddisgyblion o sut i gadw'n iach;
- llawer o'r disgyblion yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n gytûn;
- ymglymiad cryf disgyblion i'r ysgol ac maent yn ymddwyn yn gyfrifol;
- addysgu da yn sicrhau ymroddiad pob unigolyn i'w dysgu;
- profiadau dysgu yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion; ac
- amgylchedd diogel ac ethos cyfeillgar yr ysgol yn sicrhau iechyd a lles pob disgybl.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir y pennaeth yn seiliedig ar alluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial;
- dealltwriaeth gadarn gan y llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella;
- hunanarfarnu yn arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth;
- ystod o bartneriaethau yn hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol;
- yr ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Cynyddu gallu'r disgyblion i arfarnu a gwella'u gwaith

A2 Sirchau bod cofnodion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol

A3 Ymestyn cyfleoedd i athrawon arsylwi arfer dda y tu hwnt i'w hardal leol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Wrth gyflwyno gwybodaeth, mynegi barn neu gyfrannu i weithgareddau chwarae rôl, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando ar gyfraniadau disgyblion eraill â sylw cynyddol ac yn mynegi eu hunain yn ddealladwy. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn gan roi rhesymau ac yn cyfrannu i drafodaethau grŵp yn hyderus. Maent yn darllen ystod ehangach o destunau addas yn Gymraeg ac yn defnyddio gwahanol dechnegau ar gyfer ymgodymu â geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr, maent yn defnyddio priflythrennau ac atalnod llawn yn gywir ac yn trefnu darn o waith ysgrifennu yn briodol. Mae'r disgyblion mwy abl yn defnyddio ffurfiau berfol safonol gyda chywirdeb cynyddol ac yn cynhyrchu darnau diddorol o ysgrifennu personol.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfraniadau disgyblion eraill ac yn cyfrannu'n bwrpasol i drafodaethau grŵp. Wrth iddynt gynllunio ac arwain addoliad ar y cyd ysgol gyfan, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn arddangos medrau cyfathrebu a synnwyr o gynulleidfa yn dda iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o wahanol strategaethau ar gyfer deall ystyr geiriau ac yn ymdopi'n hyderus â geiriau anghyfarwydd. Mae bron pob un yn mwynhau darllen ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau megis ffuglen a llyfrau gwybodaeth. Erbyn Blwyddyn 5, maent yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, megis llyfrau, pamffledi a gwefannau, yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gynhyrchu gwahanol fathau o ddarnau ysgrifenedig megis storïau, ymsonau neu bortreadau o gymeriadau hanesyddol. Maent yn defnyddio nifer o dechnegau, er enghraifft map meddwl, wrth gynllunio gwaith ysgrifennu ac, ar y cyfan, yn treiglo'n gywir ac yn defnyddio'r ystod lawn o atalnodi. Erbyn blwyddyn 5, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n fedrus ac yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu diddorol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau rhif a mesur gyda chywirdeb cynyddol, yn arbennig wrth ymwneud â thasgau ymarferol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron pob un afael gadarn ar brosesau adio a thynnu, maent yn trin a thrafod arian yn gywir ac yn defnyddio mesurau safonol hyd a màs yn bwrpasol.

Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddefnyddio ffeithiau rhif ac i wneud cyfrifiadau yn y pen, yn gryfder. Erbyn blynyddoedd 5 a 6, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau pum digid a chanrannau'n hyderus iawn ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ymwneud ag ymchwiliadau

gwyddonol, mae'r disgyblion hyn yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau a graffiau. Erbyn B5, mae'r rhan fwyaf yn fedrus iawn wrth adnabod patrymau a thueddiadau mewn data. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r medrau hyn i ddatrys problemau bywyd go iawn.

Mae disgyblion o'r holl ystod oedran a gallu yn ymdrechu'n ddiwyd mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn gyflym ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, megis darganfod grym gwrthiant aer yn erbyn ambarél, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'u medrau meddwl.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a all effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o'i gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r nesaf.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn y 50% is mewn llythrennedd a mathemateg yn 2012 ac wedi gostwng i'r 25% isaf yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2009 i 2013. Bu perfformiad Cymraeg a Saesneg gan amlaf yn y 50% uchaf gyda mathemateg a gwyddoniaeth yn y 50% isaf.

Nid oes unrhyw duedd cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae'r ychydig o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol gydag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, mae bron pob un yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Mae llawer yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig.

O oedran cynnar, mae llawer o'r disgyblion yn hyderus wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu ac yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus. Enghraifft dda o hyn yw ymchwiliad a wnaed gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wrth iddynt geisio mesur faint o aer sy'n cael ei golli wrth roi cwpan mewn dŵr.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu,

maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Nodwedd amlwg o hyn yw'r arfer gan grwpiau o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 o gynllunio a chyflwyno cydaddoliad ysgol gyfan. Mae'r cyngor ysgol a'r grŵp eco yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol ac yn llais dylanwadol ym mywyd yr ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb dros bedair o'r pum mlynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch mewn cymhariaeth ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Mae'r arfer o gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y pentref yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w cymuned leol yn sylweddol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r amrediad eang o brofiadau dysgu cyfoethog yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r profiadau dysgu diddorol a dychmygus a gynllunnir yn y Cyfnod Sylfaen yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol yn y chwe maes dysgu. Trwy gyd-gynllunio gofalus, mae'r ysgol yn sicrhau bod y cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar ddysgu blaenorol a bod dilyniant a pharhad yn y profiadau dysgu.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau, ac yn arbennig medrau llythrennedd a rhifedd, wedi'u cynllunio'n drylwyr iawn. Mae'r pwyslais cryf a roddir drwy'r ysgol ar ddarparu problemau 'go iawn' ar gyfer disgyblion, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella eu medrau meddwl ynghyd â'u gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd. Enghreifftiau nodweddiadol o hyn yw'r gweithgareddau mentergarwch a ymgymerwyd gan ddisgyblion o'r holl ystod oedran. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi dechrau ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ei chynlluniau tymhorol ac mae hyn wedi grymuso'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae'r ystod eang o brofiadau ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol a chyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau'r gymuned leol, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol ac yn eu helpu i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig. Mae'r Gymraeg yn weladwy iawn yn amgylchedd yr ysgol ac mae pwyslais cryf yn y cwricwlwm ar godi ymwybyddiaeth disgyblion o hanes, daearyddiaeth a thraddodiadau Cymru.

Trwy weithgarwch y pwyllgor eco a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd codi arian at wahanol elusennau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd cynaliadwyedd.

Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth yn effeithiol trwy greu cyfleoedd iddynt wneud cyfraniadau cadarnhaol i'r gymuned leol. Un enghraifft

o lwyddiant y bartneriaeth yw'r gwaith a wnaeth y disgyblion ar gynllunio arwyddion ffyrdd mewn ymateb i'r broblem oryrru yn y pentref.

**Addysgu: Da**

Mae'r berthynas waith glòs sydd rhwng oedolion a disgyblion yn arwain at addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r holl athrawon yn hyddysg yn eu gwaith ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn effeithiol i gynllunio profiadau dysgu ysgogol sydd ag amcanion dysgu clir. Caiff disgyblion o bob oedran a gallu eu herio i gyflawni'n dda, a thrwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus staff, cânt eu hannog i ymdrechu'n galed a chymryd rhan weithredol mewn gwersi.

Trwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu, llwydda'r athrawon yn dda i sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'w dysgu. Caiff athrawon a disgyblion gefnogaeth gref gan gymorthyddion dysgu medrus sy'n cyfrannu'n arwyddocaol i ddysgu ac addysgu. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau yn cyfrannu'n gryf tuag at hyrwyddo medrau dysgu disgyblion.

Mae trefniadau asesu a chofnodi'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae'r adborth llafar, ynghyd â'r sylwadau ysgrifenedig, yn rhoi arweiniad clir iddynt ynghylch yr hyn y maent wedi'i gyflawni a beth mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella. Er hynny, ychydig o ddisgyblion sydd, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn gallu arfarnu eu gwaith yn annibynnol ac adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella. Mae'r arfer o bennu targedau unigol ar gyfer disgyblion, ynghyd â'r anogaeth a gânt i bennu targedau eu hunain, yn arwain at gynnydd mewn dysgu a chymhelliant.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a phriodol. Llwydda'r staff i greu amgylchedd diogel ac ethos cyfeillgar lle caiff iechyd a lles disgyblion flaenoriaeth uchel. Mae'r staff yn ymateb yn gyflym i unrhyw achosion honedig o aflonyddu neu fwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Caiff buddion bwyta'n iach, ffitrwydd ac ymarfer corff rheolaidd eu hyrwyddo'n gyson ac yn effeithiol.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Yn ystod sesiynau addoli ar y cyd ac achlysuron eraill, caiff disgyblion eu hannog i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill ac i drafod gwerthoedd megis gonestrwydd a pharch. Mae'r arferion hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n dderbyniol a'r hyn sy'n annerbyniol.

Mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol manwl sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mewn achosion penodol, mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o arbenigeddau asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion, er enghraifft, seicolegwyr addysgol. Er bod yr ysgol yn cadw cofnodion manwl o anghenion dysgu pob unigol, ar adegau prin, nid yw'r cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n gyson yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl ac oedolyn. Mae nifer o strategaethau cynhwysfawr wedi'u sefydlu ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais ac mae'r rhain yn gwella lles a chyrhaeddiad disgyblion yn sylweddol.

Mae'r amgylchedd dysgu'n ddeniadol ac ysgogol ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol yn dda gyda digon o ofod ac ystafelloedd dysgu sy'n cynnwys arddangosfeydd diddorol a symbylus. Mae hyn yn ysgogi diddordeb disgyblion ac yn hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae'r adeiladau'r ysgol a'r tiroedd o'i chwmpas yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan ddisgyblion ac oedolion ac yn cael eu cynnal yn dda. Caiff yr ardal y tu allan ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, ynghyd â buarth chwarae a chae'r ysgol, eu defnyddio'n bwrpasol ar gyfer dibenion y disgyblion. Mae'r holl safle yn cael ei gadw'n raenus ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon gan ddisgyblion ac athrawon.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau pwrpasol sydd o ansawdd da yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cynnwys offer cyfrifiadurol sy'n cael ei ddefnyddio'n bwrpasol gan ddisgyblion ac athrawon i gefnogi dysgu ac addysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar alluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial ac ar werthoedd Cristnogol. Mae staff yr ysgol yn hyrwyddo'r weledigaeth yn llwyddiannus. Mae gan bob aelod o'r staff rolau wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cydweithio'n dda fel tîm. Mae gan yr arweinyddion ddisgwyliadau uchel ac mae trefniadau monitro effeithiol yn eu lle.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at brosesau hunanarfarnu trwy drafod data cyrhaeddiad, arsylwi gwersi a monitro'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol yn dda.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n llwyddiannus. Mae'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn datblygu'n dda a gwelir effaith gadarnhaol ar safonau gwaith y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn drylwyr. Mae ganddi weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol sy'n arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gyfrannu at y broses hunanarfarnu, gan gynnwys barn y rhieni, staff a disgyblion. Mae athrawon ac aelodau o'r corff llywodraethu yn monitro safonau a darpariaeth trwy ddadansoddi data, craffu llyfrau ac arsylwi gwersi. Mae'r adroddiadau monitro o ansawdd da ac yn cydbwyso'r cryfderau gydag argymhellion ar gyfer gwella yn briodol. O ganlyniad, mae'r monitro gan yr arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol. Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae gan yr athrawon rolau pendant yn creu a gweithredu agweddau penodol o'r cynllun.

Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae'r pennaeth yn monitro ac adolygu cynnydd y blaenoriaethau ac yn adrodd arnynt yn effeithiol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol. Mae hyn yn sicrhau bod gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o'r cynnydd a wneir gan yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi meithrin ystod o bartneriaethau sy'n hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn dda. Mae'r ysgol yn cynnal nosweithiau gwybodaeth llwyddiannus ar gyfer y rhieni sydd yn eu galluogi i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant. Er enghraifft, bu'r ysgol yn trafod gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gyda'r rhieni, ynghyd â'i strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch i rannu arfer dda mewn agweddau megis llythrennedd. Mae'r cydweithio wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y safonau da yn yr ysgol ac wedi arwain at welliannau yn ei dulliau asesu.

Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgolion uwchradd o'u dewis ac mae'r rhain yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae cydweithio da rhwng yr asiantaethau arbenigol a'r ysgol. Mae'r partneriaethau yn fuddiol ac yn hyrwyddo'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Ceir cysylltiadau agos rhwng yr ysgol a cholegau lleol ac mae cyfraniad y myfyrwyr sydd yn ymweld â'r ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar addysg a lles y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion profiadol yn cydweithio'n llwyddiannus i ymdrin â phob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigeddau staff i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau’r disgyblion.

Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol. Mae’r holl staff yn cael datblygu’n broffesiynol drwy’r broses rheoli perfformiad. Mae’r staff sy’n mynychu hyfforddiant yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda gweddill y tîm addysgu.

Mae’r ysgol yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu. Mae athrawon yn gweithio’n effeithiol gyda staff o ysgolion lleol eraill i roi ar waith nifer o fentrau sy’n cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Serch hynny, prin yw’r cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol a rhannu arfer dda y tu hwnt i’w hardal leol.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli’n briodol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o’r cwricwlwm. Mae’r adeilad a’r tir o gwmpas yr ysgol yn cael eu defnyddio i’w llawn botensial.

Mae gan yr arweinwyr gynlluniau gwariant pendant sydd wedi’u cysylltu’n glir â blaenoriaethau’r ysgol. Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn monitro’r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Niferoedd bach o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn 2013 ac felly, nid yw'n briodol cymharu perfformiad yr ysgol â meincnodau cenedlaethol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill sydd â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i ginio am ddim, roedd perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn 2012 ar y deilliant disgwyliedig yn y 50% is mewn llythrennedd a mathemateg ac yn y 25% uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ar y deilliant 6 yn y 25% isaf mewn llythrennedd ac yn 50% is mewn mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn 2013, roedd perfformiad llythrennedd a mathemateg wedi gostwng i'r 25% isaf tra bod datblygiad personol a chymdeithasol wedi aros yn y 25% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig o gymharu ag ysgolion gyda chanran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, wedi amrywio'n sylweddol dros y cyfnod 2009 i 2013. Bu perfformiad Cymraeg a Saesneg gan amlaf yn y 50% uchaf gyda mathemateg a gwyddoniaeth yn y 50% isaf. Yn 2013, roedd Cymraeg a gwyddoniaeth yn y 25% isaf.

Nid oedd unrhyw dueddiad cyson o wahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched o un flwyddyn i'r llall. Mae'r gyfran fechan o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y grŵp.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 18 | 18<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 19 | 18<br>95% | 1<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 17<br>85% | 3<br>15% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 19 | 16<br>84% | 3<br>16% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 20 | 20<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 9 | 5 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 56% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 8 | 1 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 80% | 10% | 10% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 7 | 2 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 70% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 9 | 5 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 5<br>50% | 1<br>10% | 1<br>10% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Huw Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Brian Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Manon Williams | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.